


## Croeso!

Dyma ni wedi cyrraedd yr 20fed rhifyn o gylich lythyr Ceredrotian. Yn y rhifyn yma ni fyddwn yn rhoi sylw i driawd o'n sylwebyddion mwyaf dawnus sef Darren Owen, Gareth Topham a Gary Capewell.

### Beth sy' wedi bod yn digwydd?



Mae Ceredrotian wedi bod yn brysur yn paratoi go gyfer ar tymor newydd. Mae'n taflennu gwybodaeth yn brysur gwneud eu ffordd o amgylch Cymru a'r Gororau. Mi fydd y taflennu yn cael eu dosbarthu o nawr hyd ddiwedd y tymor. Diolch i westai Tŷ Belgrave a Queensbridge am noddi'r taflennu.

Unwaith eto mi fydd y Western Mail yn cynnwys darn a'r rasio harnais. Mi fydd yr erthygl a'r hysbyseb yn ymddangos 16 Ebrill, er mwyn cyd fynd â dechrau'r tymor. Roedd yr ymateb yn dda iawn llynedd ac mae'r papur yn ymddangos i fodd yn gyfrwng da i hysbysebu. Os oes unrhyw glybiau am gael eu cynnwys yn yr hysbyseb, croeso i chi gysylltu â Ceredrotian.

Mi fydd Rasys Gwanwyn Tregaron gyda ni o fewn dau fis, ac er wiethaf y tywydd gwlyb mae 'na eisoes nifer o'r hyfforddwyr wrthi yn paratoi eu ceffylau gyda'r gobaith o gael ennill ambell i ras ar ddechrau'r tymor. Mae manylion rasys Gwanwyn Tregaron ar gael yn adran "Y Padog" ar y wefan.

Os i chi yn chwilio am fargen, wel nawr i'r amser i chi ystyried archebu Tocyn Aelodaeth Rasys Clwb Tregaron. Prys y Tocyn yw £70 (neu £60 os ydych yn aelod o'r BHRC neu Glwb Cardigan Bay), Mae'r tocyn yn cynnwys mynediad i'r 4 diwrnod o rasys yn Nhregaron yn ogystal â mynediad i Bafiliwn yr Aelodau sydd riet wrth ochr y trac. Mae Pafiliwn yr Aelodau yn cynnig lle i chi archebu bwyd ac i gymryd eich sedd reit wrth ochr y trac. Mae'n bosib lawr lwytho ffurflien aelodaeth o'r wefan, o dan adran Clwb Trotian Tregaron.

Mae Clwb Cardigan Bay am drefnu taith i Ddiwrnod Agored Lambourn – Dydd Gwener Y Groglith (Ebrill 18). Mae'n gyfle arbennig i ymweld a rhai o stablau fwyaf enwog yn Lambourn. Yn ystod y bore mi fydd yna gyfle i chi ymweld ag amrhyw o stablau yn cynnwys stabl Nicky Henderson. Mae nifer o'r stablau yn trefnu arddangosfa arbennig. Wedyn yn y prynhawn cyfle i wyllo rhaglen yn llawn o adloiant yn seiliedig ar geffylau a chefn gwlad. Os oes gennych diddordeb, cysylltwch a Kayleigh Evans ([kay27evs@hotmail.co.uk](mailto:kay27evs@hotmail.co.uk) / 07868 568402) cyn Dydd mercher 2 Ebrill.

Mi fydd y cylch llythyr nesa yn cynnwys, ceffylau i wyllo am 2014 - cyfle gwych i chi gael y blaen ar ba geffylau mae'r hyfforddwyr yn hoffi am y tymor sydd i ddod.

Dros y blynyddoedd mae rasio harnais wedi mwynhau nifer o sylwebyddion heb eu hail - a neb yn fwy na 2 sydd gennym nawr sef Darren Owen a Gareth Topham. Mae'r ddau mor adnabyddus yn sylwebu ar brif gyrsiau rasio throughbred y wlad ac ydynt i ni ar y traciau rasio harnais. I'r rhai ohonoch sy'n gwyllo 'Channel 4 Racing' neu 'At the Races' mi fyddwch wedi clywed ac adnabod eu lleisiau yn rheolaidd. Mae'n amlwg taw ar y cyrsiau rasio mae eu dyfodol ond braf yw dweud bod y ddau bob amser yn gwneud amser i roi eu gwasanaeth yn frwdfrydig i rasio harnais.



Dechreuodd cysylltiad Darren gyda rasio harnais nôl yn 1987 pan roedd Prys Jones, y sylwebydd rheolaidd ym Mharc Llanerch, Llanelwy (cyn dyddiau Tir Prins) angen gwyliau. Fe ofynnodd Prys i

Darren a fyddai'n hoffi ymgymryd â'r gwaith. Fe neidiodd Darren ar y cyfle, ac o'r amser hynny cafodd Darren ei fachu gan y busnes sylwebu a rasio harnais. Dyma oedd cyfle cyntaf cafodd Darren, ac mae Darren yn ystyried taw hwn oedd cychwyn y daith, ac fel mae dywediad yn mynd "erbyn hyn mae'r gweddill yn hanes".

Wedi mwynhau'r profiad a'r wefr o sylwebu ar rasys harnais am 2 flynedd, cymerodd Darren ei siawns mewn cystadleuaeth i sylwebyddion amatur ar Radio BBC. Ac os taw Llanerch oedd cychwyn y daith, dyma oedd yr hwb nesaf ar y ffordd i'w yrfa broffesiynol fel sylwebydd rasys ceffylau, gan greu cysylltiadau gyda BBC Radio Wales, Cymdeithas y Wasg, Cyrsiau Rasio Prydain a Theledu BBC. Mi ddylasai rasio harnais fod yn hynod falch taw dyma'r gamp wnaeth greu'r cyfle a phrofiad gwreiddiol i un o leisiau sylwebu mwyaf cyfarwydd rasio ceffylau ym Mhrydain.

Yn sicr mae prif rasys harnais Prydain wedi awchu am gael gwasanaethau Darren ar y diwrnodau mawr. Ac mae Darren yn dweud taw braint yw cael wedi gwyllo


a sylwebu ar geffylau a gyrwyr mwyaf dawnus y wlad. Rydym ni o'r farn taw ein braint ni yw cael ei glywed yn gyson a'r traciau rasio harnais led led y wlad. Onid braf yw cael dweud bod un o lleisiau'r Grand National, un o rasys mwyaf enwog y byd - hefyd yn un o leisiau Rasio Harnais Prydain.

Ac os nad ydynt ddigon ffodus bod un prif sylwebydd gyda ni, mae un arall hefyd, sef Gareth Topham. Dechreuodd Gareth ei yrfa fel sylwebydd yn 2006, wrth i Darren drefnu ei fod yn sylwebu ar ras yn Nhir Prins. Mae'n amlwg fod Gareth wedi plesio, wrth i bwyllgor Boughrood gysylltu gyda fe toc wedyn yn gofyn a fyddai ar gael i gyd-sylwebu gyda Gordon Lyons yn y rasys. Neidiodd Gareth ar y cyfle a dyma oedd y cam nesaf ar y daith i fod yn sylwebydd cyson yn y rasys. Yn y tymor canlynol, ac yn absenoldeb Gordon Lyons, fe ddaeth Gareth yn llais cyfarwydd iawn yng nghyfarfodydd Cymru a'r Gorllewin.

Er bod Gareth wedi cael profiad o sylwebu ar rasys mewn stiwdio, fe roddodd rasio harnais y cyfle iddo wneud sylwebaeth fyw, cyfle i ymarfer ei ddawn ac arfer a'r pwysau sy'n dod wrth wneud y sylwebaeth yn fyw. I rai a glywodd Gareth yn ei ddyddiau cynnar roedd yn bur amlwg bod y ddawn ganddo a bod yn ymdopi yn hwyliog gyda'r fenter o sylwebaeth fyw.

Ac unwaith eto, braf yw gweld fod Gareth yn mwynhau rasio harnais gymaint. Mae wedi sylwebu ar rasys harnais mwyaf blaenllaw'r wlad, ac erbyn hyn mae'r profiad wedi mynd a llais yn rhyngwladol.

Wedi ymweliad Roger Houston (Prif Lais rasys America) ymweld â rasys Tregaron, buan iawn daeth y gwahoddiad i Darren a Gareth ymgymryd â'r meic yn Delaware Ohio, yn ystod rasys y Little Brown Jug. Prin roedd un o'r ddau yn mynd i wrthod y cynnig o 'alw ras' yn un o



gyfarfodydd mwyaf eiconig y byd o flaen 48,000 o bobl.

Cafodd y par groeso mawr yn Delaware a gyda balchder y gwelon nhw'r Ddraig Gymraeg yn hedfan uwchben cylch enwog yr ennillwyr. A phan daeth criw o'r DU i'r cylch pan ennillodd caseg Tom Hill, Western Silk y Juliette, dywedodd Darren ei fod yn union fel bod nol yn Nhregaron. Mae Gareth yn cydnabod fod y profiad yn ddigon brawychus i ddechrau ond fe wnaeth fwynhau'r profiad byth cofiadwy. Mi fyddai Darren yn annog unrhyw un sydd a diddordeb yn rasio harnais i wneud siwr eu bod nhw yn ymweld a'r Little Brown Jug.

Cafodd hefyd gyfle i sylwebu yn Tioga Downs - profiad grêt gan fod Gareth yn ymwybodol fod steil sylwebyddion America yn gwahaniaethu tipyn o'r DU, wrth iddynt ganolbwyntio yn fawr ar y cyflymdra a'r pwyslais ar yr amser ar bob ¼ milltir.

Felly beth sy'n denu'r mawrion yma nôl i Rasio harnais, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae Darren yn disgrifio fe fel magnet, mae rasio harnais jyst yn denu fe nol. Oes, ma' yna wendidau, ond mae'r wefr o brofi'r awrygylch yn y prif gyfarfodydd yn bositif iawn ac mae'r cymeriadau a'r bobl yn rhoi llawer o bleser iddo. Ac i Gareth, mae wir yn mwynhau cyffro'r rasys ac yn gwerthfawrogi'r bobl a'r pwyllgorau sy'n cynnal y rasys.



Mae gwaith Gary hefyd wedi mynd o amgylch y byd yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae wedi ymweld a gweithio yn Meyden, Jebel Ali, Qatar a Toulouse ond er mor bell ma' fe'n mynd, ma' fe' n dal i ddod 'nôl i Rasys Tregaron bob blwyddyn, ac mi fyddwn yn ei weld ac i glywed yno eto yn 2014. Mae Gary yn wir gwerthfawrogi'r bobl sy'n

ymwneud a rasio harnais "rwy wedi cwrdd â phobl grêt, mae'r bobl sy'n ymwneud a rasio harnais mor gyfeillgar a chroesawgar. Pan fyddwch yn gofyn am gyfweiliad ma' pawb wastad yn barod i roi o'u hamser, mae hwnna yn gwneud y job tipyn haws ac rwy'n gwerthfawrogi eu cydweithrediad.

Dyma beth sydd yn eu galw nhw yn ol i'm plith. Gan obeithio bydd eu brwdfrydedd yn parhau cyhyd y

bydd y rasys. Rydym yn mwynhau ac yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn eu hadnabod nid yn unig fel sylwebyddion ond hefyd fel sylwebyddion rasio harnais.

A'r gair olaf i Darren "rhaid meddwl yn bositif a chydweithio i'r dyfodol, a bob lwc am dymor penigamp yn 2014"

## Newyddion Sydyn

- Newyddion da fod Cymru & Gorllewin wedi cadarnhau lleoliadau i'r 3 cyfarfod cyntaf. Mi fydd rasys Sul 11 Mai a Sul 18 Mai yn Llanandras a chyfarfod Sul 1 Mehefin yn Allensmore.
- A ydych chi wedi cael ebol eto? Os i chi wedi clywed am unrhyw ebol Standardbred, rhowch wybod i ni er mwyn eu cynnwys ar dudalen "Ebolion Newydd" ar y wefan
- Mae Protexin Premium yn cynnig gwobr £200 i hyfforddwyr, gyrrwyr neu farchogion. Dim ond angen llenwi ffurflen gais (ar gael ar dudalen newyddion y wefan). Da chi rhowch eich ceisiadau i mewn, i weld a chawn ni enillydd o griw rasio harnais.

*Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.*



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig  
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government